# Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cynhaliwyd: Ddydd Gwener 27 Medi 2024 am 10.00am trwy ZOOM

**Yn bresennol:**

Aelodau: Amanda Rees, Babs Lewis, Bethan Webber, Catherine Evans, Chris Hall, Damian Bridgeman, Daniel Roberts, David Jenkins, David Madge, Derek Walker, Gareth Yeoman-Evans, Jeff Andrews, Jocelle Lovelle, John Chown, Kath Griffiths, KC Gordon, Laura Phillips, Marquis Caines, Mike Cowley, Mike O'Hara, Mike Williams, Nisreen Mansour, Sarah Beal, Serena Allen.

Ddim yn Aelodau: Akshita Lakhiwal, Andrew White, Carmel, Paul Seymour, Sarah Evans a Ward Coster.

Aelodau nad oeddent yn bresennol, ond a gyflwynodd ffurflen bleidleisio drwy ddirprwy:

Grahame Sturges, Nigel Keanes, Glenn Bowen, Donna Coyle a Claire White

Cofnodion: Sarah Beal, Cydlynydd Llywodraethu.

---

**1. Croeso a sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

Croesawodd Richard Hughes bawb i'r cyfarfod, y cyntaf iddo fel Cadeirydd. Bu'n flwyddyn o gryn gynnwrf a newid, ond mae effaith gadarnhaol a chanlyniadau Cwmpas yn dyst i waith caled ac angerdd y tîm. Roedd yn falch iawn o wydnwch y sefydliad a sut mae Cwmpas wedi ymateb i rai o'r heriau a wynebwyd yn ystod y flwyddyn a'u cofleidio. Crybwyllodd rai o'r cerrig milltir nodedig yn ystod y flwyddyn, fel rheolaeth tîm Cymunedau Digidol Cymru ar yr addasiad arfaethedig i'r Gyllideb, a hefyd llwyddiannau wrth ymateb i gyfleoedd y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Diolchodd RH i gyd-aelodau'r bwrdd am eu cyfraniad at lywodraethu cadarn a dull rheoli wedi'i arwain gan werth dros y cyfnod, gan oedi i gydnabod y pedwar aelod Bwrdd a oedd wedi rhoi'r gorau i'w rôl gyda Cwmpas: Nigel Keanes, Grahame Sturges, Angharad Dalton a Jeff Andrews. Estynnodd longyfarchiadau i Bethan Webber ar lywio'r sefydliad trwy'r flwyddyn gythryblus hon.

cwmpas

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb.**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Kit Wilson (Aelod Bwrdd), David Smith, Karen Wilkie a Terry Chin.

3. **Siaradwr Gwadd – Andrew White, Cyfarwyddwr, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol Cymru.**
Dechreuodd Andrew trwy gyflwyno'i hun, gan esbonio ychydig am ei gysylltiad personol â'r Gymru ôl-ddiwydiannol a sut gwnaeth hyn gyfrannu at ei angerdd tuag at y Gymraeg a sut mae ei brofiad bywyd yn lliwio ei ddealltwriaeth o werth treftadaeth a beth mae'n ei olygu i bobl yma.

Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi buddsoddi hanner biliwn o bunnoedd mewn prosiectau yng Nghymru ac mae'n teimlo'n gryf iawn y dylai'r buddsoddiad hwn gefnogi treftadaeth gyfoes, sydd i bawb heddiw, ac ymlaen i'r dyfodol.  Daeth rôl gwirfoddolwyr a chymunedau lleol drosodd yn gryf; nid yw'r prosiectau hyn yn ymwneud dim ond ag amddiffyn adeiladau, maent yn hanes byw ac yn rhan o'r ecosystem gymunedol bresennol.

Yn ddiweddar, mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi cyhoeddi ei strategaeth dymor hwy (10 mlynedd) newydd, sy'n cysylltu â phrosiectau unigol a hefyd â lleoedd.  Mae mwy o bwyslais ar feithrin partneriaethau ac mae'r fframwaith buddsoddi ei hun yn ymgorffori'r amgylchedd, ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) ac, yn holl bwysig, mae'n gofyn bod buddsoddiadau'n dangos sut byddant yn cael eu cynnal yn y dyfodol.

Disgrifiodd Andrew rai o'r prosiectau hynod gyffrous a gwblhawyd dros y flwyddyn ddiwethaf fwy neu lai, gan gynnwys prosiect Treftadaeth Bwyd Abertawe, y llwybrau Iddewig ac LHDTC+ dan arweiniad gwirfoddolwyr yn Llandudno, Windrush Cymru a Bryngaer Caerau Ely (safle 6000 oed o arwyddocâd rhyngwladol), i enwi ond rhai.

Daeth cyflwyniad Andrew i ben trwy ofyn i'r bobl sy'n bresennol ystyried "pwy sydd yn yr ystafell" a "phwy sydd ddim yn yr ystafell" bob amser, gyda'r nod o weithio'n fwy cynhwysol a chynaliadwy. Ystyried o safbwynt "sut i'w cyrraedd" yn hytrach na safbwynt "anodd eu cyrraedd".

4. **Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023**
Ni chodwyd materion i'w cywiro. Derbyniodd yr aelodaeth fod y cofnodion yn gywir ac yn gofnod gwir.

5. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2022.**
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6. **Adroddiad yr Ysgrifennydd (adroddiad effaith)**

Aeth Bethan Webber â'r aelodau trwy'r prif uchafbwyntiau a heriau a fynegwyd yn adroddiad effaith 2023-24, cyfnod o newid mawr i Cwmpas.

Mae'r sector cyfan wedi wynebu her eleni, digwyddiadau byd-eang, ffactorau gwleidyddol domestig, pwysau ar gyllid ac ailstrwythuro cyllid. Gwaetha'r modd, roedd cau Chwarae Teg yn adlewyrchu'r angen am wydnwch a strwythuro'r sefydliad i ymateb i'r newid mewn amodau. Nod Cwmpas yw defnyddio'r anawsterau'n gatalydd, er enghraifft rhoi swyddogaeth Twf Busnes newydd ar waith i amlygu'r cyfleoedd i dyfu allan o'r pair hwn. Yn sicr, mae angen datrysiadau er budd ehangach.

Disgrifiodd Bethan rai o'r cyflawniadau prosiect a gweithredol allweddol ar draws Cwmpas, gan gynnwys: y pontio o gyllid Ewropeaidd SBW i raglen SBW-2 dan arweiniad Consortiwm; trawsnewid prosiect Cymunedau Digidol Cymru yn sgil y newidiadau arfaethedig i'r gyllideb yn Nadolig 23 (a dynnwyd yn ôl wedyn), gyda thros 30,000 o bobl wedi cael cefnogaeth i fynd ar-lein; llwyddiant eithriadol tîm Perchnogaeth Gweithwyr, sydd wedi cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru 2 flynedd yn gynnar, ynghyd â chyflawniadau niferus pellach.

Mae uchelgais gan Cwmpas i gynyddu ein heffaith ac adeiladu mudiad dros newid. Rydym ni wrthi'n ymgysylltu â phartneriaid, cydweithwyr sector, y llywodraeth a rhanddeiliaid i symud ymlaen. Mae ymroddiad a gwerthoedd tîm y staff yn elfen gwbl hanfodol o'n llwyddiant. Mae 93% o staff yn falch o weithio i Cwmpas.

Atebodd Bethan gwestiynau. Cadarnhaodd fod newid yr enw'n ymddangos yn llwyddiant, gan gynnig cyfle i amrywiaethu ac ehangu ein hapêl. Gofynnodd rhywun iddi am ei barn am Gyfraith Macora (sy'n cael ei ystyried yn San Steffan fel mecanwaith posibl ar gyfer annog perchnogaeth gan weithwyr). Yn fras, mae'n ei chefnogi ond mae gwaith i'w wneud i ddeall sut mae'n debygol o gael ei chymhwyso'n dechnegol a'r canlyniadau tebygol i gyllid. Croesawodd hi'r cyfle i archwilio hyn yn fanylach ar bapur, a hefyd argymhellodd "Ŵyl Syniadau'r Economi Llesiant", y bwriedid ei chynnal ym mis Tachwedd, i'r aelodaeth.

7. **Cyflwyno Cyfrifon Archwiliedig 2023-24**

Cyflwynodd Trysorydd Cwmpas, Jeff Andrews, gyfrifon 2023-24 am y tro olaf. Roeddent wedi cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio (gyda'r Archwilydd yn bresennol) a'u cymeradwyo gan y Bwrdd.

Cadarnhaodd Jeff fod Cwmpas yn cyflwyno set o gyfrifon glân a diamod, gyda throsiant o £6.9M ar gyfer y flwyddyn, gwarged o £56 mil a gorffen y flwyddyn gyda chronfeydd cadarn wrth gefn o oddeutu £1.2M. Mae'r cyfrifon yn darparu darlun cadarnhaol, gan nodi gallu Cwmpas i barhau'n fusnes gweithredol yn y dyfodol.

Roedd y datganiad diwedd blwyddyn yn gyson â'r cyfrifon rheoli a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn, sy'n argoeli'n dda am annog hyder yn llywodraethu ariannol y sefydliad.

Estynnodd Jeff ddiolch a llongyfarchiadau i Jo Bolton, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a adawodd Cwmpas ym mis Mai, Paul Seymour, a oedd wedi bod yn cyflenwi dros dro yn y rôl hon, a'r tîm cyllid yn ei gyfanrwydd am eu gwaith caled ac archwiliad llwyddiannus.

Manteisiodd Jeff ar gyfle i siarad am ei 35 mlynedd o ymglymiad â Cwmpas (cyn Ganolfan Gydweithredol Cymru) a'r llu o Aelodau Bwrdd ac aelodau staff rhagorol yr oedd wedi gweithio â nhw.

Nid oedd unrhyw gwestiynau, a derbyniodd yr aelodaeth y Cyfrifon.

**8. Ethol Cyfarwyddwyr**

Cynghorodd Richard Hughes yr aelodau fod pedair swydd wag a thri ymgeisydd. Roedd aelodau wedi cael cyfle i adolygu bywgraffiadau'r ymgeiswyr ac ni chodwyd unrhyw ymholiadau na phryderon ynghylch darpar Aelodau'r Bwrdd.

Cadarnhaodd Sarah Beal fod nifer yr aelodau yn 159, gan wneud cworwm o 23. Gyda 24 aelod ar-lein a 5 pleidlais drwy ddirprwy wedi dod i law, roedd cworwm yn bresennol yn y cyfarfod a gellid rhoi unrhyw benderfyniadau ar waith.

Cynigiodd y cyfarfod yn ffurfiol i ethol yr ymgeiswyr

- Damian Bridgeman;
- Amanda Rees; a
- Marquis Caines.

Cymeradwywyd ethol yr ymgeiswyr trwy gymeradwyaeth.

**9. Penodi Archwilwyr**

Derbyniodd a chymeradwyodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol benderfyniad y Bwrdd i ailgadarnhau Haines Watts yn Archwilydd ar gyfer y flwyddyn i ddod (yn unol â chyfnod y contract).

**10. Unrhyw Fater Arall**

Diolchodd Chris Hall o Co-ops and Mutuals Wales i Bethan Webber am yr Adroddiad Effaith a'r Cyfrifon, ond awgrymodd y dylai Cwmpas ystyried darparu adroddiad amgylcheddol ar wahân yn y dyfodol. Er bod gwybodaeth amgylcheddol yn yr Adroddiad Effaith, byddai adroddiad ar wahân yn helpu i bwysleisio bod materion gwyrdd yn ystyriaeth allweddol i Cwmpas, gan gryfhau dull y "sylfaen driphlyg" a helpu i yrru'r sgwrs gyda chleientiaid a rhanddeiliaid. Croesawodd Bethan Webber yr awgrym a chytunodd i roi ystyriaeth ddifrifol iddo.

Atgoffodd Richard Hughes y cyfarfod mai dyma oedd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cwmpas olaf Jeff Andrews fel aelod o'r bwrdd, ac yntau'n ymddeol wedi dros 30 mlynedd o gysylltiad, a bod yn Drysorydd ers nifer o flynyddoedd. Diolchodd iddo am ei gyfraniad, ei brofiad a'i gymhwysedd, sydd bob amser wedi bod o gysur enfawr i'r Bwrdd ac i'r sefydliad yn ei gyfanrwydd. Soniodd David Jenkins, y Cadeirydd blaenorol, am gyfraniad Jeff, gan helpu i adeiladu sylfaen gref i'r sefydliad, gyda llywodraethu ariannol cadarn wrth wraidd holl weithgareddau Cwmpas, a phroffesiynoldeb ac awydd diffuant Jeff i wneud gwahaniaeth. Diolchodd Derek Walker, cyn Brif Weithredwr Cwmpas, i Jeff am ei holl gefnogaeth a'i graffter gwleidyddol yn ystod ei gyfnod, gan sôn am yr effaith enfawr yr oedd wedi'i gwireddu a chymaint o fraint y bu hi i weithio gyda dyn mor hynaws. Adleisiodd Bethan Webber y sylwadau hyn, gan ddiolch i Jeff ar ran Cwmpas, y staff a'r Aelodau am gyfraniad mor rhagorol dros gyfnod mor hir.

Richard Hughes

Gorffennodd y cyfarfod am 11.25

**Llofnod:** **Dyddiad:**